**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 10 Ionawr 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L James (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M Durke | J A Hale |
| M Jones | E T Kirchner | B J Rowlands |
| L V Walton | L J Tyler-Lloyd | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Sarah Lackenby | Prif Swyddog Trawsnewid |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S M Jones a/ac W G Lewis

---

## 27 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddion canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr J E Burtonshaw, M Durke, J A Hale, L James, M Jones, E J Kirchner, B J Rowlands, L J Tyler-Lloyd ac L V Walton gysylltiad personol â Chofnod 29, "Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr – Mai 2022 a Thu Hwnt."

## 28 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir.

## 29 Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2022 a thu hwnt.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol adroddiad ar y cyd i adolygu "Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2017 a thu hwnt" ac argymell fersiwn Mai 2022 a thu hwnt i'r cyngor. Byddai hyn yn sicrhau bod y cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig yn derbyn darpariaeth TGCh sy'n addas ar gyfer eu hanghenion, ac yn cydymffurfio â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA).

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol yn adolygu Lwfansau TGCh y Cynghorwyr ac yn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer Mai 2022 a thu hwnt a bod y lwfansau diwygiedig yn cael eu cynnwys ym mhroses y gyllideb.

2) Cytuno ar y Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2022 a thu hwnt a adolygwyd ac a ddiwygiwyd a'i argymell i'r cyngor ei fabwysiadu'n amodol ar y diwygiad(au) canlynol i Atodiad A:

   Diwygio Paragraffau 4.2(a) a 5.1(a) i nodi "Maent yn dangos tystiolaeth o'u data a'u cysylltiad ffôn yn eu cartref ddwywaith yn ystod cyfnod swydd o 5 mlynedd".

3) Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid a Digidol yn darparu arweiniad defnyddiol "Arferion Da" i gynghorwyr, a fydd yn esbonio pynciau megis copïau wrth gefn, cysoni, etc.

4) Dylid ychwanegu hyfforddiant meddalwedd modern.gov i Raglen Sefydlu'r Cynghorwyr.

## 30 Adolygiad o Lawlyfr y Cynghorwyr

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i adolygu adrannau A-C y Llawlyfr i Gynghorwyr ac i argymell y fersiwn ddiwygiedig i'r cyngor ei mabwysiadu.

**Penderfynwyd** argymell y diwygiadau a gynigiwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i atodiadau'r adroddiad i'r cyngor eu mabwysiadu'n amodol ar y diwygiadau ychwanegol canlynol:

Atodiad B, paragraff 9 - nodi "Swyddfa'r Cabinet/Tîm y Gwasanaethau Democrataidd" yn lle "y ddau dîm".

## 31 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Nododd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr oedd yn rhagweld y byddai mewn sefyllfa i gyflwyno eitemau pellach yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 21 Mawrth 2022 er nad oedd unrhyw eitemau wedi'u nodi ar gyfer y cyfarfod nesaf ar hyn o bryd.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.29 pm

**Cadeirydd**